# Y PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL

**Dyddiad:** 3 Chwefror 2000

**Amser:** 9.30am

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

## Teitl: Adroddiad y Cadeirydd

### 1. Materion mewnfudo a nodded

1.1 Roedd nifer o Aelodau a swyddogion yn bresennol yn y Sesiwn Briffio a gyflwynwyd gan UNHCR a'r Swyddfa Gartref am integreiddio ceiswyr nodded a ffoaduriaid ar 20 Ionawr. Cafodd y sesiwn briffio gymeradwyaeth frwd a dyna'r cyntaf o sawl sesiwn o'r fath a gaiff eu cynnal yng Nghymru a fydd yn darparu gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd i ffoaduriaid er mwyn cynorthwyo ym mhroses integreiddio'r ceiswyr nodded sy'n cael eu gwasgaru.

1.2 Yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor, gofynnodd yr Aelodau am wybodaeth am niferoedd a chyrchfannau y ceiswyr nodded a ddisgwylir yng Nghymru. Yn y sesiwn briffio dywedwyd wrthym y byddai rhyw 5000 o geiswyr nodded yn dod i Gymru bob blwyddyn o Ebrill 2000 ac y disgwylir mai oedolion ifanc fydd y rhan fwyaf.

### 2. Y Gyngres Fyd-Eang ar Amrywiaeth Ddiwylliannol

2.1 Yn sgil cyfarfod diwethaf y Pwyllgor, gofynnwyd i'r Aelodau ddweud pa weithdai y teimlent y dylai'r Cynulliad eu cefnogi yn y Gyngres. Ers hynny, newidiodd y cynigion a'r bwriad oedd i sawl aelod a swyddog unigol fynd i nifer o weithdai.

2.2 Mae'r Ysgrifenyddiaeth wedi ysgrifennu at George Criag, Uwch Cyfarwyddwr y Cynulliad, i ddweud wrtho am bryderon Aelodau ynghylch y ffaith bod llywodraeth China yn chwarae rhan yn y Gyngres ac i roi cyngor am hygyrchedd lleoliadau. Cododd y materion hyn gyda'r trefnwyr. Ni fydd Gweinidog Materion Ethnig China bellach yn un o'r prif siaradwyr. Yn ogystal, mae trefnwyr y gyngres wedi dweud eu bod yn cysylltu ag Anabledd Cymru ynghylch materion mynediad.

## 3. Archwiliad Cydraddoldeb – Canlyniadau Cynnar

3.1 Mae canlyniadau'r archwiliad yn cael eu dadansoddi ar hyn o bryd. Mae rhyw 28 o'r 55 o gyfweliadau wedi cael eu dadansoddi. Er bod y dadansoddi yn cymryd ychydig yn hwy na'r disgwyl gwreiddiol, yr ydym yn dal i ddisgwyl rhoi adroddiad i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Mawrth.

## 4. Codi Ymwybyddiaeth am Gydraddoldeb ymhlith Aelodau'r Cynulliad

4.1 Rhoddwyd holiadur i'r Aelodau yn gofyn iddynt ddweud beth oedd eu gofynion o ran gwybodaeth am faterion cydraddoldeb. Hyd yn hyn mae 20 o holiaduron wedi dod yn ôl ac mae'r Uned Polisi Cydraddoldeb yn gweithio ar amserlen ar gyfer y sesiynau codi ymwybyddiaeth y gofynnwyd amdanynt. O ystyried yr ymatebion mae'n debyg y caiff nifer o sesiynau rhyngweithiol byr eu trefnu, am recriwtio ac ymwybyddiaeth gyffredinol (yn para rhyw 1 i 2 awr). Gwelir hyn yn fan cychwyn proses barhaus o godi ymwybyddiaeth. Bydd yr hyfforddiant i bobl sy'n gwneud penodiadau cyhoeddus yn cael ei gynnig cyn toriad y Pasg. Cynigir gweddill yr hyfforddiant yn yr Haf.

## 5. Ymchwiliad Stephen Lawrence

5.1 Erbyn hyn yr wyf wedi cael ymateb i'm llythyr at Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg a Phlant am argymhellion addysgol Adroddiad yr Ymchwiliad. Caiff copi o'r ymateb ei gylchredeg. Mae rhai materion cwricwlwm i'w hystyried o hyd. Cynhaliwyd cyfarfod is-grp y Pwyllgor i ystyried argymhellion Adroddiad yr Ymchwiliad ar 19 Ionawr. Byddwn yn trafod hyn yn ddiweddarach ar yr agenda. Dylai'r pwyllgor nodi hefyd y disgwylir i ACCAC ac Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg cyn 16 Oed ddod gerbron y Pwyllgor hwn ynghylch y mater hwn ym mis Mawrth.

## 6. Materion Eraill

6.1 **Cynrychioli'r Cynulliad yn *Beijing Plus Five* –** Yn y cyfarfod diwethaf cododd Aelodau'r mater o sut y byddai'r Cynulliad yn cael ei gynrychioli yn y digwyddiad hwn. Mae swyddogion wedi cysylltu â threfnwyr y digwyddiad ac maent yn aros am ymateb ysgrifenedig.

6.2 **Gwahodd Comisiynydd Materion Cymdeithasol Ewrop i ddod i Gymru** – Byddaf yn ysgrifennu i wahodd Anna Diamantopoulou i ymweld â'r Cynulliad yn ddiweddarach eleni, ar y cyd â'r Prif Ysgrifennydd a'r Ysgrifennydd dros Ddatblygu Economaidd.

6.3 **Wythnos Ymwybyddiaeth am Gydraddoldeb** – Yn sgil ein trafodaeth am 'wythnos

gydraddoldeb', credaf mai'r syniad gorau fyddai trefnu rhywbeth i gyd-fynd â'r ddadl flynyddol ar gyfle cyfartal ym mis Gorffennaf. Ystyriwyd y materion canlynol:

- Bydd y Pwyllgor wedi ystyried canlyniadau'r Archwiliad Cydraddoldeb a phenderfynu ar gynllun gwaith.
- Bydd yr Adroddiad Blynyddol am weithgareddau'r Pwyllgor ar gael a bydd yn dangos llwyddiannau'r Pwyllgor/Cynulliad o ran cydraddoldeb yn ei flwyddyn gyntaf
- Bydd y Ddadl yn amlygu materion cydraddoldeb
- Bydd Aelodau wedi cyfrannu at sesiynau codi ymwybyddiaeth a bydd lefel wybodaeth gyffredinol y Cynulliad wedi'i chodi

Os bydd yr Aelodau yn cytuno â'm cynnig, byddwn yn croesawu unrhyw syniadau am weithgareddau perthnasol yn y cyfarfod.

6.4 **Grp Rhwydwaith Menywod y Cynulliad Cenedlaethol** – Siaradais am Fenywod mewn Gwleidyddiaeth yn y digwyddiad hwn ar 26 Ionawr. Grp ydyw o swyddogion benywaidd yn y Cynulliad ar lefel ganol rheoli yn ogystal â menywod ar lefelau tebyg mewn cyrff eraill, yn gyhoeddus a phreifat. Ei fwriad yw helpu menywod i ddatblygu eu potensial a chael dyrchafiadau i safleoedd rheoli uwch. Yno hefyd roedd grp Mentora Busnes yn y Gymuned gyda Heddlu'r De.